***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 738

# Rheoliadau Dadgofrestru a Chyfnewid Tir Comin a Meysydd Tref neu Bentref (Gweithdrefn) (Cymru) 2012

## RHAN 2

Gwneud a Phenderfynu Ceisiadau

**Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais**

**7.**—(1) Rhaid i'r ceisydd, ddim hwyrach na saith diwrnod ar ôl gwneud cais—

(a) cyhoeddi hysbysiad o'r cais mewn newyddiadur sy'n cylchredeg yn yr ardal y lleolir y tir rhyddhau ac unrhyw dir cyfnewid ynddi;

(b) am gyfnod o ddim llai nag 28 diwrnod, arddangos hysbysiad o'r cais yn y prif fannau mynediad i'r canlynol (neu, os nad oes mannau o'r fath, mewn man amlwg ar ffin y canlynol)—

(i) y tir rhyddhau; a

(ii) y tir cyfnewid (os oes tir o'r fath); ac

(c) anfon hysbysiad o'r cais at—

(i) unrhyw berson (ac eithrio'r ceisydd) sydd â meddiant o'r tir;

(ii) meddiannydd unrhyw eiddo a ddangosir yn y gofrestr fel eiddo sydd â hawliau comin dros y tir rhyddhau ynghlwm wrtho, os yw'r ceisydd yn credu bod y meddiannydd hwnnw'n arfer yr hawliau hynny, neu y byddai'r cais yn debygol o effeithio ar y meddiannydd;

(iii) unrhyw berson arall y mae'n hysbys i'r ceisydd fod hawl ganddo i arfer hawliau comin dros y tir rhyddhau, os yw'r ceisydd yn credu bod y person hwnnw'n arfer yr hawliau hynny, neu y byddai'r cais yn debygol o effeithio ar y person hwnnw; a

(iv) y cyngor cymuned (os oes un) ar gyfer yr ardal y lleolir y tir rhyddhau a'r tir cyfnewid ynddi.

(2) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys y manylion canlynol—

(a) enw'r ceisydd;

(b) enw'r tir comin neu'r maes tref neu bentref yr effeithid arno gan y cynnig;

(c) lleoliad y tir rhyddhau a'i arwynebedd mewn metrau sgwâr;

(ch) pa un a oes cynnig wedi ei gynnwys yn y cais i gofrestru tir fel tir cyfnewid ai peidio, ac os felly, lleoliad y tir cyfnewid a'i arwynebedd mewn metrau sgwâr;

(d) datganiad cryno o'r rheswm dros wneud y cais;

(dd) cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost lle gellir anfon unrhyw sylwadau;

(e) y dyddiad pan ddaw'r cyfnod a ganiateir ar gyfer gwneud sylwadau i ben, sef dyddiad na chaiff fod yn gynharach nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cydymffurfir yn llawn â pharagraff (1);

(f) cyfeiriad lle mae'r ffurflen gais a'r dogfennau a restrir yn rheoliad 5(2) ar gael i'w harchwilio;

(ff) yr amseroedd a'r dyddiadau pan ganiateir archwilio felly, sef amseroedd a dyddiadau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â rheoliad 8(2); a

(g) cyfeiriad lle y gellir anfon i gael copi gan y ceisydd o'r ffurflen gais ac o'r dogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais.

(3) Rhaid i'r ceisydd hefyd anfon hysbysiad o'r cais at y cyfryw bersonau, neu arddangos hysbysiad o'r cais yn y cyfryw fannau, fel a gyfarwyddir gan yr awdurdod sy'n penderfynu o dan reoliad 6(4).

(4) Rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad i'r awdurdod sy'n penderfynu pan fo'r ceisydd wedi cydymffurfio â pharagraffau (1) i (3), a rhaid i'r hysbysiad hwnnw—

(a) cynnwys manylion o'r canlynol—

(i) y newyddiadur y cyhoeddwyd yr hysbysiad o'r cais ynddo, a'r dyddiad cyhoeddi;

(ii) y dyddiad y gosodwyd hysbysiad o'r cais ar y tir;

(iii) y personau yr anfonwyd hysbysiad o'r cais atynt, y dyddiad neu'r dyddiadau yr anfonwyd yr hysbysiadau hynny, a natur buddiant pob un o'r personau hynny yn y tir (os oes buddiant); ac

(iv) y man lle gosodwyd hysbysiad o'r cais ar y tir (gan gyfeirio at fap os oes angen); a

(b) cael ei gyflwyno ynghyd â chopi o'r dudalen berthnasol o'r newyddiadur y cyhoeddwyd yr hysbysiad o'r cais ynddo.

(5) Os caiff hysbysiad ei dynnu ymaith, ei guddio neu'i ddifwyno cyn bo'r cyfnod o 28 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) wedi dod i ben, a hynny pan nad oes bai ar y ceisydd na bwriad ganddo i wneud hynny, rhaid trin y ceisydd fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff hwnnw, os cymerodd gamau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac i'w ailosod pe bai angen.